
Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Gwanwyn 2020

ADRODDIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mai 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Dangosfyrddau	5

1. Trosolwg

Dyma'r diweddariad dros dro cyntaf i'n hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Mae wedi'i seilio ar y ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU fel yr oedd y sefyllfa ym mis Ionawr 2020, cyn i'r coronafeirws gyrraedd y DU.

Daw'r diweddariad hwn ar adeg pan mae'n bwysicach nag erioed bod mewn cysylltiad. Mae'r pandemig coronafeirws wedi achosi sialensiau na welwyd eu tebyg i'r diwydiant telathrebu, gyda chynnydd sylweddol yn y galw ar y rhwydweithiau.

Er enghraifft, mae wedi arwain at lawer mwy o weithio gartref i ganiatáu i fusnesau barhau i weithredu yn ystod y cyfyngiadau ar fasnachu a theithio. Mae pobl hefyd wedi dibynnu ar wasanaethau ffôn a band eang - yn cynnwys apiau galwadau fideo - i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, ac i barhau i ddysgu tra mae'r ysgolion ar gau. Mae sicrhau bod pobl a busnesau ar draws y DU yn gallu manteisio ar gysylltiadau dibynadwy, teilwng, yn dyngedfennol ac rydym yn croesawu ymdrechion cwmnïau ffôn a band eang i gadw pobl mewn cysylltiad.

Prif Ganfyddiadau

Mae **band eang ffeibr llawn** wedi cynyddu'n sylweddol i fwy na 3.5 miliwn o gartrefi, wedi codi o 3 miliwn adeg ein diweddariad diwethaf. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn argaeledd band eang, gydag argaeledd band eang cyflym iawn hefyd yn gwella.

Erbyn hyn mae'r **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol** wedi cael ei lansio ar draws y DU, gan roi hawl gyfreithiol i bobl i ofyn am gysylltiad band eang teilwng.

Mae'r **ddarpariaeth symudol yn dal yn sefydlog** ond dylai gynyddu yn sgil y cytundeb **Rhwydwaith Gwledig a Rennir** rhwng Llywodraeth y DU a'r pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, rydyn ni'n cyhoeddi dangosfwrdd a siart ryngweithiol sydd â'r data diweddaraf a data hanesyddol.

Mae'r data o'r diweddariad hwn wedi cael eu defnyddio hefyd i adnewyddu'r [wefan a'r ap gwirio darpariaeth](#). Byddwn yn adolygu pa mor dda a pha mor hygyrch yw'r gwasanaethau hyn yn ystod 2020.

Y prif ganfyddiadau - Band Eang Sefydlog

Band eang ffeibr llawn¹: mae argaeledd band eang ffeibr llawn yn y DU yn dalu i wella'n gyflym, gyda mwy na 3.5 miliwn o gartrefi² (12%) bellach yn gallu manteisio ar wasanaethau ffeibr llawn

¹ Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2. mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi

² Sylwch ein bod yn adrodd ar eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, gwiwgyswllt a chyflym iawn, ond ein bod yn adrodd ar eiddo masnachol o ran 'band eang teilwng'

cyflymach, mwy dibynadwy - cynnydd o fwy na hanner miliwn yn y pedwar mis hyd at fis Ionawr. Ffrwyth cynnydd yng ngwaith cyflwyno'r rhwydweithiau band eang presennol a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad yw hyn.

Band eang gwibgyswllt (cyflymder llwytho i lawr o 300 Mbit/s³ o leiaf): mae argaeledd band eang gwibgyswllt wedi cynyddu mwy na 700,000 eiddo ar draws y DU ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr, i 16.1 miliwn o gartrefi (55%). Cynnydd yn argaeledd rhwydwaith cebl a darpariaeth ffeibr llawn Virgin Media sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Band eang cyflym iawn (cyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit/s o leiaf): mae band eang cyflym iawn yn parhau i gael ei gyflwyno ar draws y DU, gyda 300,000 eiddo ychwanegol ers ein hadroddiad diwethaf. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 27.7 miliwn o gartrefi (95%) yn gallu manteisio ar fand eang cyflym iawn erbyn hyn.

Band eang teilwng (cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit/s a llwytho i fyny o 1Mbit/s): erbyn hyn mae mwyafrif helaeth yr holl eiddo yn y DU yn gallu manteisio ar fand eang teilwng. Mae nifer yr eiddo (preswyl a masnachol) nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth band eang 'teilwng' drwy linell sefydlog yn 608,000 (2%), sy'n debyg i'r ffigur o 610,000 yn adroddiad mis Rhagfyr. Gallai'r eiddo hyn fod yn gymwys ar gyfer y [gwasanaeth band eang cyffredinol](#), sy'n rhoi'r hawl gyfreithiol i eiddo nad ydynt yn gallu cael cysylltiad teilwng i wneud cais am un.

Fel y dywedwyd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr, rydyn ni'n disgwyl i argaeledd cynyddol Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) arwain at ostyngiad pellach yn nifer yr eiddo nad ydyn nhw'n gallu cael cysylltiad band eang teilwng (amcangyfrif o ryw 189,000 eiddo ym mis Rhagfyr). Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r ffordd rydyn ni'n diffinio ac yn adrodd ar y ddarpariaeth FWA a byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ein hadroddiad llawn ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r ffigurau uchod yn nodi i ba raddau y mae cysylltiadau ar y cyflymderau hyn ar gael, nid faint sy'n manteisio ar y gwasanaethau; edrychir ar y niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau band eang sefydlog yn ein hadroddiad blynyddol.

Cefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang

Ar 8 Ionawr 2020, gwnaethom gynnig⁴ trefn reoleiddio newydd, hyblyg a fydd yn help i ddabtlygu dyfodol ffeibr llawn ar gyfer y DU gyfan.

Mae'r cynigion hyn yn ceisio gwednewid yr achos busnes dros fuddsoddi mewn ffeibr – ar gyfer trefi, dinasoedd a phentrefi fel ei gilydd. Rydym yn bwriadu amrywio'r drefn reoleiddio mewn gwahanol rannau o'r wlad. Bydd hyn, ynghyd â'r £5bn o gyllid sydd wedi'i gynllunio gan Lywodraeth y DU ar gyfer ardaloedd gwledig, yn help i sicrhau bod pobl ar draws y DU yn elwa o fand eang cyflymach a gwell. Byddwn hefyd yn diogelu cwsmeriaid yn ystod y cyfnod pontio hwn, drwy drosglwyddo'r rheoleiddio – yn cynnwys y mesurau diogelu prisiau – o wasanaethau copr i wasanaethau ffeibr newydd.

³ Gall band eang gwibgyswllt gael ei ddarparu drwy amrywiaeth o dechnolegau, fel G.Fast, DOCSIS (Cebl) a ffeibr llawn.

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/cymru/latest/features-and-news/supercharging-investment-in-fibre-broadband>

Ar 20 Mawrth 2020, lanswyd y cynllun gwasanaeth band eang cyffredinol⁵, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, gan roi'r hawl gyfreithiol i gartrefi a busnesau cymwys i wneud cais am well cysylltiad os nad ydynt yn gallu cael cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit/s a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit/s.

BT sy'n gyfrifol am gysylltu eiddo, ac eithrio yn ardal Hull lle mai KCOM yw'r darparwr dynodedig.

Rydym ni'n parhau i gefnogi gwaith Llywodraeth y DU⁶ a'r buddsoddi mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabit yn y DU, yn cynnwys darparu ar gyfer yr eiddo hynny mewn ardaloedd gwledig anoddach eu cyrraedd.

Y prif ganfyddiadau - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth ffonau symud mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl wrth ddefnyddio eu ffonau symudol.⁷ Ni fu cynnydd amlwg yn y ddarpariaeth ers ein hadroddiad diwethaf, ond rydym yn disgwyl y bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, y cytunodd Llywodraeth y DU a'r diwydiant arno'n ddiweddar, yn gyrru gwelliannau i'r ddarpariaeth ymlaen dros y blynyddoedd nesaf (rhagor o fanylion isod).

4G: Ni welwyd newidiadau sylweddol yn darpariaeth y rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Mae gan ddwy ran o dair o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G dda gan y pedwar gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys 97% o'r adeiladau yn y DU.

Mannau heb wasanaeth 4G: Mae manau heb wasanaeth - yn rhai daearyddol ac ar ffyrdd - (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symduol) yn dal i fod yn 9% a 5% y naill a'r llall, er bod y darlun yn y gwledydd unigol yn amrywio'n sylweddol, yn arbennig yn yr Alban a Chymru.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun: Fel gyda 4G, ni fu fawr o newid at ei gilydd ers y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae gan ychydig llai nag 80% o ehangdir y DU ddarpariaeth o ran galwadau a negeseuon testun gan yr holl weithredwyr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys 99% o'r adeiladau yn y DU.

Mannau heb wasanaeth galwadau/negeseuon testun: Yn yr un modd, ni fu newid yn yr ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu ffonio neu anfon neges destun drwy unrhyw weithredwr, ac mae'r manau daearyddol heb wasanaeth oddeutu 5% o'r DU, a'r manau heb wasanaeth ar ffyrdd y DU oddeutu 2%. Fodd bynnag, fel sy'n wir am 4G, mae yna amrywiadau amlwg rhwng y gwledydd unigol; er enghraifft, mae'r manau daearyddol heb wasanaeth ar draws yr Alban yn uwch nag yng ngweddill y DU (ar oddeutu 12% o'i gymharu â 5% i'r DU gyfan).

⁵ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/features-and-news/broadband-uso-advice>

⁶ <https://www.gov.uk/guidance/building-digital-uk>

⁷ Manylir ar y diffiniadau yn yr atodiad ar fethodoleg yn adroddiad mis Rhagfyr 2019:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/186411/connected-nations-2019-methodology.pdf

5G: Nid ydym ond megis dechrau ar y gwaith o gyflwyno 5G, felly ni fyddwn yn adrodd ar y ddarpariaeth 5G yn y diweddariad hwn. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau symudol i sefydlu'r ffordd orau o werthuso ac adrodd ar y ddarpariaeth 5G.

Cefnogi buddsoddiad a darpariaeth

Ar 9 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU⁸ ei bod wedi dod i gytundeb â'r pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol – BT/EE, O2, Three a Vodafone – i ddarparu cyllid ar gyfer 'Rhwydwaith Gwledig a Rennir' (SRN) y gweithredwyr, er mwyn gwella'r ddarpariaeth symudol ar draws y DU ac mewn ardaloedd gwledig yn arbennig. Yn gyfnewid am gyllid, ac ar ôl i Ofcom ddileu rhwymedigaethau darpariaeth o'r arwerthiant sbectrwm 700 MHz a 3.6 – 3.8 GHz, mae'r cwmnïau i gyd wedi ymrwmo i gyflenwi darpariaeth 4G o safon dda i 90% o leiaf o'r DU ymhen chwe blynedd drwy'r rhaglen SRN.

Bydd yr SRN yn rhoi darpariaeth ychwanegol wedi'i gwarantu i filoedd o gartrefi a busnesau a miloedd o gilometrau o ffyrdd, ac mae pob un o'r gweithredwyr hefyd wedi ymrwmo i gyflwyno gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru.

Bydd Ofcom yn adrodd ar y ddarpariaeth sydd wedi'i chyflwyno gan yr SRN yn adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn helpu i wella band eang symudol ac yn cefnogi cyflwyno 5G drwy ryddhau tonnau awyr (sbectrwm) pwysig. Ar 13 Mawrth 2020, gwnaethom gyhoeddi⁹ y byddwn yn rhyddhau rhagor o donnau awyr symudol drwy gynnal arwerthiant am ddau fand amledd (700MHz a 2.6-3.8GHz).

Casglu ac adrodd ar y data

Rydyn ni'n cydnabod y pwysau y mae'r coronafeirws (Covid-19) yn ei roi ar y sector telathrebu - gyda llai o weithlu a mwy o alw ar y rhwydweithiau symudol a band eang. Mae hwn yn gyfnod na welwyd ei debyg ac rydyn ni'n gwerthfawrogi mai priod flaenoriaeth y diwydiant yw cadw'r rhwydweithiau i weithio'n dda fel bod gwledydd y DU yn gallu aros mewn cysylltiad. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu a'i chyhoeddi yn dal yn werthfawr i ddefnyddwyr, gwneuthurwyr polisi a diwydiant, felly byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau dros y misoedd i ddod i sicrhau ein bod yn gallu monitro ac adrodd ar gynnydd, gan gydnabod yr un pryd y sialensiau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

⁸ <https://www.gov.uk/government/news/shared-rural-network>

⁹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/award-700mhz-3.6-3.8ghz-spectrum>

2. Dangosfyrddau

Band eang sefydlog

Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	9%	10%	12%
Lloegr	8%	10%	11%
Gogledd Iwerddon	25%	31%	41%
Yr Alban	7%	8%	10%
Cymru	10%	12%	13%

Mynediad at wasanaethau gwibgyswllt	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	52%	53%	55%
Lloegr	54%	55%	58%
Gogledd Iwerddon	47%	49%	52%
Yr Alban	44%	45%	48%
Cymru	30%	31%	33%

Mynediad at wasanaethau cyflym iawn	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	95%	95%	95%
Lloegr	95%	95%	96%
Gogledd Iwerddon	89%	89%	89%
Yr Alban	92%	92%	93%
Cymru	93%	93%	93%

Mynediad at wasanaethau 10Mbit/s	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	98%	98%	98%
Lloegr	98%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	94%	94%	94%
Yr Alban	96%	97%	97%
Cymru	97%	97%	97%

Methu cael 10Mbit/s llwytho i lawr ac 1Mbit/s llwytho i fyny (yn gymwys o bosib am USO)	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	2%	2%	2%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	6%	6%	6%
Yr Alban	4%	4%	3%
Cymru	3%	3%	4%

Nodyn 1: Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2. mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi

Nodyn 2: Mae'n bosib nad yw hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Nodyn 3: Mae'r ffigurau am y rhai a allai fod yn gymwys am USO yn cynnwys pob eiddo (preswyl a masnachol). Mae'r ffigurau am gyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

Nodyn 4: Cynyddodd nifer y rhai a fyddai o bosib yn gymwys am USO yng Nghymru 0.3% rhwng mis Medi 2019 a mis Ionawr 2020, ond oherwydd talgrynnu mae'n uwch yn yr adroddiad. Mae'r cynnydd i'w briodoli i eiddo newydd sydd wedi'u canfod lle mae'r cyflymder band eang islaw'r trothwy USO i rai neu ddim ar gael, a gwell amcangyfrifon o gyflymderau copr, ond eu bod yn is, a gwell modelu ar y ddarpariaeth FTTP gan Openreach. Gallai'r effeithiau hyn fod yn amlwg hefyd mewn ffigurau ar lefelau mwy sylfaenol megis Awdurdodau Lleol neu godau post.

Darpariaeth 4G

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	97%	97%	97%
Lloegr	98%	98%	98%
Gogledd Iwerddon	92%	92%	92%
Yr Alban	95%	96%	96%
Cymru	92%	93%	93%

Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	66%	66%	67%
Lloegr	82%	81%	82%
Gogledd Iwerddon	78%	75%	75%
Yr Alban	40%	42%	43%
Cymru	58%	58%	58%

Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	9%	9%	9%
Lloegr	2%	3%	3%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	20%	20%	20%
Cymru	10%	11%	11%

Darpariaeth ar bob ffordd gan bob gweithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	57%	56%	56%
Lloegr	64%	62%	63%
Gogledd Iwerddon	48%	42%	42%
Yr Alban	44%	43%	44%
Cymru	46%	45%	46%

Pob ffordd sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	4%	5%	5%
Lloegr	2%	3%	3%
Gogledd Iwerddon	6%	7%	7%
Yr Alban	9%	9%	9%
Cymru	9%	11%	10%

Nodyn 1: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu sy'n 2Mbit yr eiliad o leiaf a galwadau llais dibynadwy.

Nodyn 2: Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ym mis Rhagfyr, mae'r data darpariaeth yn cynnwys rhagfynegiadau a gawsom gan EE a oedd yn defnyddio model rhagfynegi darpariaeth sydd newydd ei ddatblygu. Mae wedi arwain at rywfaint o newidiadau yn y ddarpariaeth y mae'n ei darogan ar gyfer ehangdir ac adeiladau. Mae hynny'n berthnasol hefyd i'r gwasanaethau llais a negeseuon testun yn y dangosfwrdd isod.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun:

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	99%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	96%	97%	97%
Yr Alban	98%	98%	98%
Cymru	97%	98%	98%

Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	79%	79%	79%
Lloegr	91%	91%	91%
Gogledd Iwerddon	87%	86%	86%
Yr Alban	56%	58%	59%
Cymru	76%	77%	78%

Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	5%	5%	5%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	12%	12%	12%
Cymru	4%	5%	5%

Darpariaeth ar bob ffordd gan bob gweithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	77%	76%	76%
Lloegr	83%	82%	83%
Gogledd Iwerddon	66%	62%	62%
Yr Alban	62%	62%	63%
Cymru	70%	70%	70%

Pob ffordd sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Mai 2019	Medi 2019	Ionawr 2020
Y Deyrnas Unedig	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	5%	4%	4%
Cymru	5%	5%	5%

Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).